Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**TEITL: Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ddiwylliant a meysydd eraill**

**DYDDIAD: Mehefin 2009**

**GAN: Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth**

Rwy'n falch o gyflwyno'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ddiwylliant i'r Cynulliad Cenedlaethol heddiw a rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad drafod a chraffu ar ein cynigion. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn briodol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael y pŵer i ddeddfu ym maes diwylliant.

Ar hyn o bryd mae Maes Diwylliant (3) a Maes cysylltiedig 2 (henebion ac adeiladau hanesyddol) ac 16 (chwaraeon a hamdden) yn Rhan 1 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn wag. Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn yn ffordd o ddechrau llenwi'r bylchau hyn.

O'i gymeradwyo, byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn rhoi'r pŵer, drwy Fesur, i'r Cynulliad roi ymrwymiad '*Cymru'n Un'* ar waith, sef rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac annog partneriaeth i gynnig profiadau diwylliannol o safon uchel i'w cymunedau.

Mae'r cymhwysedd yn ymwneud â swyddogaethau diwylliannol awdurdodau lleol ac mae'n gysylltiedig yn benodol â thair elfen darpariaeth ddiwylliannol yr awdurdodau lleol, sef 'cefnogi', 'gwella' a 'hyrwyddo'. I'r perwyl hwn, bydd y cymhwysedd yn gwireddu'n llawn y nod polisi yn Cymru'n Un, er enghraifft drwy swyddogaethau awdurdodau lleol fel cynllunio, ymgynghori, cydweithio/cydweithredu, cymorth ariannol neu gymorth arall, hyrwyddo etc.

Mae'r cymhwysedd yn ymestyn i Faes 2 (henebion ac adeiladau hanesyddol) ac 16 (chwaraeon a hamdden), yn ogystal â Maes 3 (diwylliant), fel bod y pŵer yn cwmpasu'r ystod lawn o weithgareddau a gwasanaethau diwylliannol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Aelodau ac eraill sydd â diddordeb yn narpariaeth ddiwylliannol awdurdodau lleol i graffu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig.

Byddaf yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mehefin 2009.